

Os am ragor o fanylion, cysylltwch â'r Gweinidog.

**gronyn.org**

Cofiwch bod Gronyn i'w weld unrhyw bryd ar wefan yr Ofalaeth. [www.gronyn.org](http://www.gronyn.org) neu [gronyn.wordpress.com](http://gronyn.wordpress.com)

## Pwyllgor Gofalaeth

Ceir cadarnhad o ddyddiad Pwyllgor yr Ofalaeth yr wythnos nesaf – i drefnu ar gyfer y drefn newydd o fis Ionawr ymlaen pan fydd yr Ofalaeth yn cael ei hymestyn i gynnwys eglwysi Bethlehem, Talybont a Charmel, Llanllechid.

## Cystadleuaeth Nadolig

Mae'r Pedair Tudalen wedi trefnu cystadleuaeth o ddeunydd ar gyfer oedfa Nadolig i blant. Nid gofyn a wneir am wasanaethau Nadolig cyfan ond am eitemau gwahanol y gellir eu cynnwys mewn gwasanaeth Nadolig i blant. Gall y deunydd hwnnw fod yn benillion neu fyfyrddod neu sgets neu hanesyn neu gân – unrhyw beth y gall pobl ei gynnwys wrth roi trefn ar eu gwasanaethau eu

hunain. Mae croeso i Ysgolion Sul anfon deunydd, ac felly os oes gennych ddeunydd addas y gallwn ystyried ei anfon, beth am roi gwybod i'r Gweinidog o hyn hyd ddiwedd mis Medi. Bydd yr eniillwyr yn cael dewis gwobrau o lyfrau neu arian i'w Hysgol Sul leol.

## Cyhoeddiadau

### CEFNYWAUN AC EBENESER

**Dydd Sul, Medi 14:** Bydd yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Gwenda Richards, Caernarfon.

### CAPEL COCH A NANT PADARN

**Dydd Mawrth, Medi 9:** Bore Coffi er budd Cronfa Adnoddau'r Capel rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch.

**Nos Wener, Medi 12:** CIC yn y festri rhwng 7.00 a 8.30 o'r gloch.

**Dydd Sul, Medi 14:** Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog a bydd oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

### REHOBOTH

**Dydd Sul, Medi 14:** Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

## Y mis nesaf - Deiniolen

### Medi 7

9.30 a.m. a 5.00 p.m. – Y Gweinidog  
Cymun yn oedfa'r hwyr  
10.15 a.m. - Ysgol Sul

### Medi 14

10.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Parchg Gwenda Richards

### Medi 21

10.00 a.m. – Oedfa Deulu  
5.00 p.m. - Y Gweinidog

## Y mis nesaf - Llanberis

### Medi 7

10.00 a.m. - Mr Andrew Settatre  
5.00 p.m. – Mr John H Hughes

### Medi 14

10.00 a.m. - Y Gweinidog (Oedfa Gymun)  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

### Medi 21

10.00 a.m. - Y Parchg Eifion W Williams  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Parchg Eifion W Williams



# Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris  
Rhif 603 – Dydd Sul, 07 Medi, 2014

## Siom

'Dechrau newydd', meddwn wythnos yn ôl wrth sôn yn *Gronyn* am agoriad canolfan gelfyddydau Pontio ganol y mis hwn. Ond yna ganol yr wythnos fe gyhoeddwyd bod cynhyrchiad Theatr Genedlaethol o 'Chwalfâ' yn cael ei ohirio am na fydd theatr newydd Pontio yn barod wedi'r cyfan. Mae'n rhaid aros tan y flwyddyn newydd i weld y ddrama hon, ac amser a ddengys a fydd y theatr yn barod ar gyfer Cyngerdd yr Agoriadol Swyddogol sydd i fod i'w gynnal ym mis Hydref.

Roedd y siom yn amlwg ym Mangor yr wythnos ddiwethaf, ond nid oedd dim y gallai pobl y Brifysgol na staff y Theatr Genedlaethol ei wneud i newid pethau. Nid yw'r theatr wedi ei chwblhau, a dyna ddiwedd ar y mater am y tro. Fel y dywedwyd gan fwy nag un person a holwyd, nid yw oedi o'r fath yn beth anarferol gyda phrosiectau adeiladu mawr o'r math hwn. Fe ddaw pethau i drefn, ychydig yn hwyrach na'r bwriad o bosibl, ond buan iawn y bydd pobl yn anghofio am y gohirio hwn unwaith y bydd y theatr a'r ganolfan gyfan wedi eu cwblhau a'u hagog.

Ond am y tro, mae yna siom, ac mae'n rhaid dygymod â hi. Gwaetha'r modd, mae eglwysi Cymru wedi arfer â siom ers talwm. O brinder cynulleidfaoedd i ddifflaniad capeli, o wendid tystiolaeth i gynnydd troseddau, o fethiant pregethu i lewyrch anffyddiaeth, o ddiffyg ffydd i ymddangosiad pob math o gredoau sy'n elyniaethus i'r Efengyl, mae'r siom yn fawr.

Ond sut fyddwn ni'n ymdopi â siom? Fyddwn ni'n digalonni ac yn cael ein llethu? Fyddwn ni'n anobeithio ac yn cael ein temtio i roi'r ffidil yn y to? Mor hawdd y digwydd hynny pan deimlwn nad oes dim yn newid nac yn gwella, a phan ddechreuwn ni gredu bod popeth yn ein herbryn. Oherwydd trueni pethau i lawer o Gristnogion yw nad siom dros dro a brofant yng ngwaith y Deyrnas. Nid siom un dydd nac un digwyddiad, ond siom parhaol bron wrth i'r blynyddoedd fynd heibio heb fawr o arwydd o newid er gwell. Nid yw llawer ohonom yn disgwyl dim ond siom beunyddiol, ac mae hynny'n beth trist drybeilig.

Ond nid oes rhaid i bethau fod felly gan fod gras Duw yn ein galluogi i ddygymod â'r siomedigaethau mwyaf oll. Ac mae hynny'n beth rhyfeddol. Yr hyn na allwn ei wneud ein hunain y mae gras Duw yn ein galluogi i'w wneud! Mae gras yn ein galluogi i ddal i gredu a gobeithio er gwaetha'r siomedigaethau. Mae'n ein galluogi i ddal i weithio er mwyn yr Efengyl er i ni deimlo bod ein tystiolaeth hyd yma wedi bod yn ddiffwrwyth. Mae'n ein galluogi i barhau'r bywyd Cristnogol er i ni deimlo bod hwnnw'n fwy o frwydr galed nag o fendith gyfoethog. Ym mhob siom, gallwn fentro pwyso ar Dduw i'n cysuro a'n calonogi a'n cryfhau, fel y gallwn ddal ati yn ein gwasanaeth iddo. A hyd yn oed pan ddywed y byd nad yw hyn ond siarad gwag, mae ffydd yn mynnu ein sicrhau o wirionedd y fath siarad.

## Gofalaeth Unedig Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon Sul arall. Boed i Dduw fendithio ein haddoliad.

Gwasanaethir yn Llanberis am 10.00 o'r gloch gan Mr Andrew Settatree ac am 5.00 o'r gloch gan Mr John H Hughes. Diolch yn fawr i'r ddau ohonynt am eu gwasanaeth.

Byddaf fi'n arwain y ddwy oedfa yn Neiniolen, am 9.30 a 5.00 o'r gloch. Bydd yr Ysgol Sul yno am 10.15 o'r gloch.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

## Cofion

Anfonwn ein cofion gorau at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

Dymuniadau gorau i bawb sy'n methu â dod i'r oedfaon ar hyn o bryd. Mae eich cydaelodau yn gweld eich colli.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mr a Mrs John Maldwyn a Mair Jones, Bethel o glywed am farwolaeth brawd Mair, Mr Elfyn Williams, yr wythnos ddiwethaf.

## Ysgol Sul

Bydd Ysgol Sul Deiniolen yn ail ddechrau am 10.15 o'r gloch heddiw.

Bydd Ysgol Sul Capel Coch yn ail ddechrau am 11.15 o'r gloch, ddydd Sul nesaf, Medi 14.

## Bore Coffi

Cynhelir y Bore Coffi misol yn festri Capel Coch rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch, ddydd Mawrth, Medi 9 er budd Cronfa Adnoddau'r Capel. Diolch yn fawr iawn i bawb sy'n helpu i gynnal y bore coffi bob mis ac i bawb sy'n dod yno i'w gefnogi.

## Henaduriaeth arbennig

Cynhelir Henaduriaeth Arbennig i weinidogion, blaenoriaid a swyddogion Henaduriaeth Arfon yng nghapel Berea Newydd, Bangor am 7.00 o'r gloch, nos Lun, Medi 15 i gyflwyno Cynllun Strategaeth Diwygiedig Arfon i'n sylw, cyn ei anfon i sylw'r Gymdeithasfa yn y Gogledd ym mis Hydref.

Gofynnir i'r eglwysi ofalu eu bod yn cael eu cynrychioli yn y cyfarfod.

## Cyfarfod Gweddi Efe

Oherwydd y trefniadau newydd rhwng Cynllun Efe a mudiad Trobwynt yn sy'n golygu bod Andrew yn treulio hanner ei wythnos waith yn Llyn ac Eifionydd dros y misoedd nesaf nid yw'n bosibl i ni gynnal y Cyfarfod Gweddi misol ar nos Fercher ar hyn o bryd.

Felly, penderfynwyd newid y drefn a chynnal y cyfarfod gweddi hwn ar fore Gwener o hyn allan, a gwneud hynny yn wythnosol. Fe'i cynhelir yn nhy Andrew (Cartref, Caethro) rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch ar fore Gwener gan ddechrau yr wythnos hon, dydd Gwener, Medi 12.

Mae croeso i unrhyw un ddod atom, ac nid oes rhaid poeni am fedru dod bob wythnos. Dowch os medrwyd unrhyw fore Gwener yn ystod tymor yr ysgol i uno mewn gweddi dros waith Efe.

## Panel Diogelwch

Bydd Cyngor Ysgolion Sul Cymru yn cynnal cyfarfodydd ar y cyd â'r Panel Diogelwch Cydenwadol i gyflwyno'r gwrslyfrau newydd sydd i'w defnyddio yn yr Ysgol Sul eleni ac egluro'r gofynion newydd o ran diogelwch plant ac oedolion bregus i'r eglwysi.

Ceir cyflwyniad 15 munud gan y Parchg Aled Davies i'r gyfres newydd o werslyfrau ac adnoddau perthnasol eraill ar gyfer Ysgolion Sul a chlybiau plant. Ac yna ceir cyflwyniad 45 munud gan Mrs Julie Edwards o'r Panel Diogelwch Cydenwadol i'r *Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus* a gyhoeddwyd eleni.

Mae dewis o ddyddiadau, a dyma'r rhai agosaf atom ni.

Nos Iau, Medi 25:

Capel y Porth, Porthmadog

Nos Lun, Medi 29:

Capel Lon y Felin, Llangefni

Nos Fawrth, Medi 30:

Coleg y Bala, Y Bala

Nos Fercher, Hydref 1

Capel Salem, Caernarfon

Bydd y cyflwyniad cyntaf am 7.30 o'r gloch, a bydd y cyfarfod yn gorffen am 9.00 o'r gloch.

Mae gwahoddiad arbennig i athrawon Ysgol Sul a swyddogion eglwysi i fynd i'r cyfarfodydd hyn.

## CIC

Bydd cyfarfodydd CIC yn aildechrau yn Capel Coch rhwng 7.00 a 8.30 o'r gloch nos Wener nesaf, Medi 12.

Mae croeso i blant Blwyddyn 6 a 7 ddod atom ac edrychwn ymlaen at weld yr hen griw yn ôl efo ni eto ar ddechrau tymor arall.

## Llanw

Mae gwyl Gristnogol LLANW wedi dod yn wyl boblogaidd iawn dros y blynyddoedd diwethaf. Mae wedi ei chynnal yn Llangrannog a Chei Newydd a Dinbych y Pysgod cyn hyn. Bydd yn dod i Bwllheli a Chricieth yr wythnos wedi'r Pasg y flwyddyn nesaf.

Ers blwyddyn neu ddwy hefyd mae trefnwyr LLANW wedi cynnal dathliad penwythnos ym mis Medi i roi blas ar yr wyl i rai na fu ynddi a chyfle i rai a fu ynddi i ddod at ei gilydd.

Cynhelir hwnnw yn Y Bala nos Wener a dydd Sadwrn, Medi 26–27. Mae croeso cynnes i unrhyw un i fynd yno. Er ei fod yn cael ei hysbysebu fel penwythnos bydd y rhan fwyaf o bobl mae'n debyg ym mynd yno y dydd Sadwrn yn unig.

'Cyfle i gymdeithasu, i ddysgu, i addoli ac i gael hwyl. Dewch i gael eich annog a'ch arfogi.' Dyna a ddywedir ar y daflen sy'n tynnu sylw at y penwythnos hwn, 'Aduniad Llanw'.

Y Parchg Hywel Meredydd, gweinidog Capel Cildwrn, Llangefni fydd y siaradwr gwadd.

Mae croeso cynnes i bawb, ac mae'r cyfan yn addas ar gyfer pob oed gan fod gweithgareddau arbennig yn cael eu trefnu ar gyfer plant a phobl ifanc hefyd.